

2. Yn 1994 cyhoeddwyd llyfr ar gyflwr crefydd ym Mhrydain â'r teitl, 'Believing without belonging'. Ynndo fe ddadleuir, tra bod niferoedd y bobl sy'n mynd i le o addoliad yn gostwng, fod niferoedd y rhai sy'n credu yn Nuw yn cynyddu.

Yn 2011 cyhoeddwyd llyfr arall â'r teitl, 'Belonging without believing,' sy'n gweld twf mewn 'anffyddwyr Cristnogol', h.y. pobl sy'n cael ei denu at Gristnogaeth er yn ymwrthod â chred draddodiadol mewn Duw.

Beth yw eich profiad chi o'r ddau grŵp yma? Ydych chi'n nabod pobl sy'n ffitio mewn i'r grwpiau hyn? Pa fath o berthynas sy'n bosibl rhwng yr eglwys a hwy?

3. Chwiliwch am storïau yn *Y Tyst* a phapurau eraill o lwyddiannau eglwysi yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rhannwch hwy gyda'r grŵp a thrafodwch deimladau'r aelodau o'u clywed. Ydyn nhw'n ysbrydoli? Yn creu balchder? Yn herio? Yn codi euogrwydd? a.y.b.

(Gallech hefyd ofyn ymlaen llaw i aelodau'r grŵp ddod a'u storïau ei hunain i'w rhannu.)

4. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am yr holl fudiadau/cymdeithasau maen nhw'n perthyn iddynt. Oes gan unrhyw un ohonynt rywbeth i'w ddysgu i'r eglwys am ystyr 'perthyn i'n gilydd?'

Noder: Bydd y ffilm nesaf ar gael i'w lawr lwytho o wefan yr Undeb ar ddiwedd mis Mai 2018.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cynllun Y Ffordd



Y Ffordd y Daethom

*Blwyddyn 2, Rhan 3
Ebrill 2018*

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Fe welwch fod y ffilm 'PERTHYN I'N GILYDD' wedi'i rhannu yn bum pennod gyda chyflwyniad ar y dechrau. Awgrymwch eich bod yn rhannu'r ffilm fel mae'n addas i chi. Ceir cwestiynau ar gyfer y penodau unigol ar waelod y dudalen hon a thudalennau 2 a 3.

Cyflwyniad

Pennod 1: *Perthyn i Grist*

Pennod 2: *Perthyn i'r Eglwys*

Pennod 3: *Perthyn i'r Cyfundeb a'r Undeb*

Pennod 4: *Perthyn i enwadau eraill*

Pennod 5: *Perthyn i'r byd o'n cwmpas*

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

***Beth allwn ni fel eglwys ei wneud
yn dilyn y drafodaeth hon?***

Cwestiynau i'w trafod

Cyflwyniad a Phennod 1: Perthyn i Grist

1. O feddwl am y llwybr o waelod y dyffryn i ben y mynydd, ble fydddech chi'n gosod eich eglwys chi ar hyn o bryd, a pham? Pa 'brofiadau pen y mynydd' yn hanes eich eglwys sy'n sefyll allan i chi?
2. A ellir perthyn i Grist heb fod yn aelod o eglwys?
3. A ellir bod yn aelod o'r eglwys heb berthyn i Grist?
4. 'Heb Grist mae crefydd yn ddi-rym ac yn gallu cyflawni dim.' Fydddech chi'n cytuno mai dyna sy'n esbonio cyflwr ein heglwys heddiw?

Pennod 2: Perthyn i'r Eglwys

1. Beth yw'r rhesymau pam eich bod chi'n perthyn i'ch eglwys a beth fyddai'n gwneud i chi stopio bod yn aelod?
2. Beth yw'r gwahaniaeth, i chi, rhwng bod yn aelod o'ch eglwys a bod yn aelod o'r cymdeithasau eraill yr ydych chi'n perthyn iddynt?
3. Allwch chi feddwl am enghreifftiau penodol o'r eglwys yn sicrhau cymod neu'n dangos awydd i dderbyn pobl, beth bynnag eu cefndir?
4. Ydi undod yn bwysig i'ch eglwys chi? Pam?

Pennod 3: Perthyn i'r Cyfundeb a'r Undeb

1. Sut mae eich eglwys yn elwa o fod yn perthyn i'r Cyfundeb a'r Undeb?
2. Pa mor ymwybodol yw aelodau eich eglwys o'r hyn sy'n digwydd o fewn y Cyfundeb a'r Undeb? Pwy neu beth sy'n gyfrifol am hyn?
3. Dywedwyd yn y ffilm fod pellter bellach rhwng llawer o eglwysy'r Annibynwyr a'r Undeb? Sut gellir gwella'r berthynas a chau'r bwlch?
4. Pa un sy'n disgrifio eich eglwys chi orau: un sy'n meddwl mwy amdani ei hun neu un sy'n ymwybodol ei bod yn rhan o deulu ehangach?

Pennod 4: Perthyn i enwadau eraill

1. Oes gan aelodau'r grŵp brofiad o berthyn i eglwys o enwad arall? Beth sy'n wahanol? Ydi'r gwahaniaethau yn bwysig?
2. Meddyliwch am enghreifftiau lle mae eich eglwys chi'n cyd-weithio gydag eglwysi o enwadau eraill. Beth yw'r pethau pwysicaf ddaeth o hynny?
3. Beth sydd hawsaf, cyd-addoli gydag eglwysi o enwadau eraill neu gyd-weithio â nhw?
4. Ydych chi'n gallu rhagweld cyfnod pryd na fydd enwadau yng Nghymru?

Pennod 5: Perthyn i'r byd o'n cwmpas

1. Ydych chi'n credu bod eich eglwys chi yn haeddu cael ei gwranddo gan y gymuned leol? Os felly, pam?
2. Oes gan eich eglwys berthynas gyda'r ysgol leol? Pa mor rwydd neu anodd yw cynnal y berthynas hon?
3. Sut mae perthynas ar draws ffiniau cenedlaethol yn dangos ei hun ym mywyd eich eglwys chi? Beth sy'n eich ysbrydoli chi am y berthynas?
4. Oes gan eich eglwys berthynas â phobl o grefyddau eraill a/neu bobl digrefydd? Beth sy'n nodweddu'r berthynas yma?

Gweithgarwch Ychwanegol

Darllenwch 1 Corinthiaid 12: 12-31 'Un corff gyda rhannau gwahanol.'

Beth mae'r darlun yma yn dweud wrthyfych am berthyn i:

1) Grist a'r Eglwys

A yw'n dweud rhywbeth wrthyfych am berthynas â'r:

2) Cyfundeb a'r Undeb

3) Enwadau eraill

4) Y byd o'n cwmpas